

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
1 Hydref 2015 7.00 yh, Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Edd Huws, Emyr Williams, Ian Jones, Ifor Dylan Williams, Gwyneth Thomas, Chris Hughes
Cadeirio: Sioned Williams
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Geraint R. Jones

2. DATGAN DIDDORDEBAU/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd

Cynnig: Ifor Dylan Williams
Eilio: Emyr Williams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Baw cŵn, tacluso meysydd parcio Lôn Groes, llinell wen, arwydd Rhes Libanus

Mae Giang Cymunedol Cyngor Gwynedd wedi galw heibio a gwneud y gwaith tacluso. Mae'r arwydd Rhes Libanus hefyd wedi ei osod.

Fodd bynnag, dydy'r llinell wen ddim wedi cael ei phaentio ac mae digwyddiad arall o dipio slei bach ger Bronant.

Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn i'r llinell wen gael ei gosod, ac i adrodd am y tipio slei bach.

4.2 Mainc Llanfaglan

Mae'r gwaith wedi ei gwblhau.

4.3 Cyfethol a chynrychiolaeth ar Lywodraethwyr Ysgol Bontnewydd

Mae'r Cyngorydd Rhys Pugh wedi ymddiswyddo. Gan hynny, ceir un sedd wag ar y Cyngor.

Cafwyd trafodaeth ar gyfethol aelod yn lle'r Cyngorydd Rhys Pugh. Penderfynwyd peidio â chyfethol am y tro. Gellir adolygu'r penderfyniad yma ar unrhyw adeg yn y dyfodol pe dymunir.

Gan fod y Cyngorydd Rhys Pugh wedi bod yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Gorff Llywodraethol Ysgol Bontnewydd, fe drafodwyd dewis cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar Gorff Llywodraethol Ysgol Bontnewydd yn ei le.

Nid oedd gan neb awydd i ymgymryd â'r rôl hon, gan nad oedd gan neb blentyn na theulu agos yn ddisgybl yn yr ysgol.

4.4 Gwerthu Lleu a Phapurau Cymraeg yn Siop McColl's, Bontnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at bencadlys McColl's yn gofyn iddynt ail ystyried eu penderfyniad i beidio â gwerthu Lleu.

Cytunodd McColl's i ail ystyried y mater, ond wedi danfon manylion pellach atynt, roedd diffyg barcod ar Lleu yn rhwystr. Mae McColl's angen barcod er mwyn mesur a rheoli'r gwerthiant. Serch hynny, nid yw hyn yn broblem mewn siopau eraill lleol ble mae Lleu yn cael ei werthu heb farcod.

Y Clerc i ohebu eto efo McColl's er mwyn gweld sut y gellir goresgyn y broblem barcod.

4.5 Parcio Siop McColl's

Cafwyd ateb gan Lywodraeth Cymru, oedd yn nodi mai tir preifat yw'r llain parcio o flaen y siop, ac felly nid oes ganddynt bwerau i ymyrryd.

Fodd bynnag, fe gynigiodd Llywodraeth Cymru gyfarfod safle i drafod y mater ymhellach.

Y Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda chynrychiolydd Llywodraeth Cymru.

4.6 Cylchdro Glan Beuno

Parheir i ddisgwyl ymateb. Mae adroddiad wrthi'n cael ei baratoi at sylw Llywodraeth Cymru gan y peirianwyr.

4.7 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Cafwyd ateb gan Lywodraeth Cymru i lythyr y Clerc oedd yn gofyn amryw o gwestiynau am y ffordd osgoi, yn dilyn y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn lleol fis Gorffennaf.

- Danfonwyd llythrau i berchnogion tir a thenantiaid tir yr oedd hi'n debygol y byddent yn cael eu heffeithio gan y ffordd osgoi.
- Mae amrywiol ddata wedi ei gasglu a fydd yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu Datganiad Amgylcheddol. Bydd data sŵn yn cael ei ddefnyddio i adnabod ardaloedd ar gyfer lliniaru sŵn y ffordd osgoi.
- Bydd canlyniadau'r holl asesiadau amgylcheddol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol Statudol a fydd yn cael ei gyhoeddi fis Chwefror 2016. Bydd y Datganiad yn cynnwys effaith sŵn, llygredd, effaith weledol, bywyd gwylt, draenio, llifogydd ac effaith yr amgylchedd ddŵr.
- Nid yw'n bosibl newid lefel y ffordd.
- Yn ystod y gwaith adeiladu bydd y mynediadau presennol yn cael eu cynnal ble'n bosibl
- Bydd cynlluniau rheoli traffig dros dro yn cael eu paratoi yn agosach i'r cyfnod adeiladu
- Bydd mynediad ar draws y ffordd osgoi yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio Lôn Llanfaglan, gyda tanbont newydd ger Pont Llidiart Gwyn

4.8 Ymgynghori ar Gyfarwyddiaeth Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru

Mae'r ymgynghoriad yma yn gofyn am farn ar y Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru . Gofynnir 7 cwestiwn, ac fe benderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf, gyda'r bwriad o ddanfon ateb i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 9 Tachwedd 2015.

4.9 Pont yr Aber

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd gan nodi gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Y Bontnewydd. Bydd ymateb Cyngor Cymuned Y Bontnewydd yn cael ei ystyried gan Gabinet Cyngor Gwynedd fel rhan o Her Gwynedd.

4.10 Postyn Cloi Beic, Y Foryd

Gofynnodd y Clerc i Gyngor Gwynedd a fyddent yn fodlon gosod postyn i alluogi beiciau i gael eu cloi yn Y Foryd. Awgrymwyd y gilfan ger Eglwys Sant Baglan.

Oherwydd y toriadau ariannol, dydy Cyngor Gwynedd ddim yn fodlon ariannu'r gwaith.

Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i'r gost o brynu a gosod postyn cloi.

4.11 Gwrthwynebiad Ceisiadau Cynllunio gan Gyngorau Cymuned

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd gan nodi anfodlonrwydd fod gwrthwynebiad cais cynllunio gan Gyngor Cymuned yn cael ei drin fel un gwrthwynebiad yn unig, er bod y Cyngor Cymuned yn cynnwys nifer o Aelodau.

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :

Cofnodion cyfarfod HYDREF 2015

Gan fod nifer o gynghorau cymuned wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd yn ddiweddar i fynegi'r un farn, cafwyd ateb safonol gan Gyngor Gwynedd oedd yn egluro mai dyna oedd y drefn o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor. Barn Cyngor Gwynedd oedd bod y broses bresennol yn un effeithiol, ac y byddai dirprwyo mwy o benderfyniadau i'r Pwyllgor Cynllunio yn debygol o arafu penderfyniadau. Byddai'n bosibl adolygu'r drefn pan fo Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio, ond doedd hynny ddim yn debygol o ddigwydd yn y tymor byr.

4.12 Tyfiant coed a Llysiau'r Cythrau Lôn tu cefn i Newborough Arms, Bontnewydd

Cysylltodd y Clerc efo Cyfoeth Naturiol Cymru am fod aelod o'r cyhoedd wedi nodi pryder am llysiau'r cythraul yn tyfu ar ochr gwely afon Gwyrfa'i yn gyfochrog i'r ffordd sydd yn mynd y tu cefn i'r Newborough Arms.

Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, er bod ganddynt gyfrifoldeb am yr afon nid eu cyfrifoldeb hwy yw glannau'r afon.

Penderfynwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn derbyn eu hymateb hwy.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerc Medi 2015

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.38

5.2 Costau postio £0.54

5.3 Costau copi gorïad Y Ganolfan £5.95

5.4 Balans yn y banc 30 Medi 2015 £8,847.96

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Cais cynllunio C15/0977/19/LL

Newid defnydd tir ar gyfer lleoli 3 adeilad dros dro, manau parcio, 2 gynhwysydd storio ynghyd â ffens diogelwch yn ymwneud ag adeiladu ffordd osgoi Caernarfon, Chwarel Gwaith Brics Seiont.

Dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

- Gwobrau Cymunedol Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Cyngor Celfyddydau Cymru – troi Neuadd Bentref yn theatr dros dro
- Adroddiad Cynrychiolydd Un Llais Cymru Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr – ceisio barn y cyhoedd
- Ymgynghoriad Gwasanaeth tân ac Achub Gogledd Cymru
- Age Cymru
- Llwybrau Cyhoeddus a Her Gwynedd

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth

8. MATERION ERAILL

Dim

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Tachwedd 5 am 7 yh, Y Ganolfan, Bontnewydd